COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 6 Mawrth 2001
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell y Llywydd (A3.13)

**Yn bresennol:** John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
John Lloyd, cyn Glerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (trwy gysylltiad fideo)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Estynnodd y Dirprwy Lywydd groeso i Paul Silk i'w gyfarfod swyddogol cyntaf o'r Pwyllgor Busnes.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC55-01(terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu fformat terfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod ar gyfer eu cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC63-01 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu fformat drafft. Cynigiwyd rhai diwygiadau bychain a gâi eu hymgorffori yn y fersiwn derfynol. Byddai hon yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion sy'n codi (BC63-01)

3.1 **Paragraff 3.1** – Dywedodd Jocelyn Davies fod ei grŵp hi'n fodlon gyda'r cynnig i symud busnes y Cyfarfod Llawn ar ddiwrnod pleidleisio'r Etholiad Cyffredinol sydd i ddod, i ddiwrnod arall, cyhyd nad oedd yn cael ei symud i

ddiwrnod Busnes Etholaeth. Dywedodd Marie Knox y byddai orau pe gellid osgoi tarfu ar gyfarfodydd pwyllgor sydd wedi'u trefnu'n barod. Cytunwyd i ddarparu dewisiadau ar gyfer y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. **Gweithredu: Marie Knox**

3.2 **Paragraff 3.2** – Cytunodd yr Aelodau i gyfarfod â'r Llywydd yn syth ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Busnes yr wythnos nesaf er mwyn trafod arferion a gweithdrefnau yn dilyn datganiadau gan y Cabinet. Byddai'r papur yn cynnwys gwybodaeth ynghylch arferion gorau yn cael ei ddosbarthu. Cytunwyd y dylai'r agenda gynnwys gweithdrefnau ar gyfer dadleuon a ohiriwyd yng ngoleuni pryderon ynghylch y modd yr ymdriniwyd â gohirio'r ddadl ar Strategaeth yr NHS ar ddydd Iau 1 Mawrth. Gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth ddarparu gwybodaeth ynghylch y gweithdrefnau yn Senedd yr Alban. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i ddosbarthu'r papur a chysylltu â Senedd yr Alban**

3.3 **Paragraff 3.4** – Dywedodd y Trefnydd y byddai'n trafod gyda'i gydweithwyr yn y Cabinet y syniad o ddarparu manylion ynghylch y trefniadau arfaethedig ar ymdrin â gorchmynion ar y flaenraglen ddeddfwriaeth, ac adrodd yn ôl yn yr ychydig wythnosau nesaf. Cadarnhaodd Marion Stapleton ei bod wedi dosbarthu'r rhestr is-ddeddfwriaeth a ddarllenwyd yn uchel yng nghyfarfod yr wythnos cynt i'r Rheolwyr Busnes. **Gweithredu: Y Trefnydd i adrodd yn ôl**

3.4 **Paragraff 7.2** – Cadarnhaodd Marion Stapleton ei bod wedi dosbarthu nodyn briffio ar y Rheoliadau Taliadau Anarddwys i'r Rheolwyr Busnes cyn dadl yr wythnos ddiwethaf.

3.5 **Paragraff 7.7** – Cadarnhaodd y Trefnydd taw 20 Mawrth oedd y dyddiad cynharaf y gellid cynnal dadl fer ohiriedig Janice Gregory, ar hyn o bryd. Serch hynny, cytunodd i'w chynnal yn gynt os oedd hyn yn bosibl.

3.6 **Paragraff 8.1** - Dywedodd y Trefnydd ei fod yn bwriadu cyfarfod â'r Llywydd er mwyn trafod y posibilrwydd o ateb cwestiynau llafar ar ei gyfrifoldebau am e-fasnach. **Gweithredu: Y Trefnydd i gwrdd â'r Llywydd; Ysgrifenyddiaeth y Siambr i gwblhau'r papur a gomisiynwyd yn y cyfarfod diwethaf**

3.7 **Paragraff 8.2** – Roedd Jocelyn Davies wedi edrych yn fanwl ar y cofnod o fusnes y Cyfarfod Llawn ar 15 Chwefror. Atgoffodd yr aelodau fod y Trefnydd wedi cwyno bod y ddadl ar y cynllun Tir Mynydd wedi rhedeg am 30 munud yn hytrach na'r 15 munud a amserlennwyd. Serch hynny, nododd fod y Gweinidog dros Faterion Gwledig wedi siarad am gyfanswm o 14 munud.

3.8 **Paragraff 8.6** – Nododd William Graham hefyd taw David Melding oedd wedi cyflwyno'r ddadl ar benodiadau cyhoeddus ar gais Edwina Hart, a taw David Davies oedd prif siaradwr y grŵp.

3.9 Yn dilyn cais William Graham, cytunwyd y dylai papur Winston Roddick ar gyhoeddi is-ddeddfwriaeth aros ar yr agenda. Dywedodd David Lambert y gofynnwyd i Nerys Arch gasglu'r wybodaeth.

## 4. Is-ddeddfwriaeth

### Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001

4.1 Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC65-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Sue Essex, Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

### Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2001

4.2 Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC66-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Sue Essex, Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

### Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Diwygio) (Cymru) 2001

4.3 Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC67-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

### Rheoliadau Addysg (Safonau Maeth Cinio Ysgol) (Cymru) 2001

4.4 Nododd y Pwyllgor Busnes y papur BC69-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar sut i ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at y pwyllgor pwnc, a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam.
**Gan hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen i'r Gorchymyn gael ei gyfeirio at bwyllgor pwnc.**

**Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Uchaf y Gweddillion mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant (Cymru a Lloegr) 2001**

4.5 Nododd y pwyllgor Busnes y papur BC68-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig, ar sut i ymdrin â'r gorchymyn uchod a oedd yn cael ei lunio ar y cyd gyda Lloegr o dan Reol Sefydlog 23. Nodwyd y gallai'r gorchymyn ddilyn un ai'r weithdrefn Safonol neu'r weithdrefn Garlam, ond na ellid cyflwyno gwelliannau iddo. Cytunodd y Pwyllgor y dylai ddilyn y weithdrefn Safonol, a nododd nad oedd rhaid i'r Dirprwy Lywydd benderfynu a ddylid ei gyfeirio at bwyllgor pwnc neu beidio.

**Rheoliadau Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion (Diwygio) (Cymru) 2001**

4.6 Nododd y pwyllgor Busnes y papur BC70-01 a oedd yn darparu cyngor oddi wrth Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig, ar sut i ymdrin â'r gorchymyn uchod a oedd yn cael ei lunio ar y cyd gyda Lloegr a'r Alban o dan Reol Sefydlog 23. Nodwyd y gallai'r gorchymyn ddilyn un ai'r weithdrefn Safonol neu'r weithdrefn Garlam, ond na ellid cyflwyno gwelliannau iddo. Cytunodd y Pwyllgor y dylai ddilyn y weithdrefn Garlam, a nododd nad oedd rhaid i'r Dirprwy Lywydd benderfynu a ddylid ei gyfeirio at bwyllgor pwnc neu beidio.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

5.1 Dim

## 6. Pwyllgorau

6.1 Dim

## 7. Busnes sydd ar y gweill

**Busnes yr wythnos hon**

7.1 Dywedodd y Trefnydd fod posibilrwydd y gallai'r Llywydd dderbyn cwestiwn brys ynghylch yr achosion o Glwy'r Traed a'r Genau. Pe na byddai hyn yn digwydd, yna disgwylid y byddai Carwyn Jones yn gwneud un ai datganiad llafar neu ddatganiad ysgrifenedig yn ddiweddarach yn yr wythnos.

7.2 Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft (BC71-01). Rhestrodd y Trefnydd nifer o orchymynion y dylid bod wedi'u cynnwys ar gyfer 27 Mawrth.

**Busnes a gynigir ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau ar 12, 19 a 26 Mawrth 2001**

7.3 Dywedodd y Pwyllgor wrth y Trefnydd y dylai busnes y Cynulliad fynd ymlaen fel yr amlinellwyd yn ei ddatganiad diwygiedig ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau ar 12, 19 a 26 Mawrth.

7.4  Dywedodd y Trefnydd fod y moratoriwm rhwng yr undebau llafur a Corus wedi ei ymestyn o 15 Mawrth i 27 Mawrth.  O ganlyniad, byddai unrhyw ddatganiad gan y Cabinet yn cael ei ohirio.

7.5  Roedd y Trefnydd wedi nodi bod grŵp y Ceidwadwyr wedi cyflwyno Cynnig heb Ddyddiad Trafod er mwyn cychwyn pleidlais ar yr adeilad newydd.  Teimlai'r Trefnydd a Rheolwyr Busnes y pleidiau eraill nad oedd angen pleidlais na dadl ar hyn yn ystod amser y Llywodraeth.  Awgrymwyd y gallai grŵp y Ceidwadwyr ddefnyddio un o'u dadleuon plaid leiafrifol os oeddynt yn teimlo ei bod yn hanfodol trafod y mater ymhellach.

7.6 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Trefnydd a allai symud y ddadl ar Ddyfarniad Aelodau a Swyddogion y Cynulliad (Cyflogau a Lwfansau) 2001, a amserlennwyd ar gyfer 13 Mawrth, ymhellach i fyny'r agenda, lle y cynhelid y fath fusnes fel arfer.  Cytunwyd ar hyn.   **Gweithredu: Y Trefnydd**

7.7  Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Trefnydd ystyried rhoi esboniad i'r Aelodau o'r swyddogaethau y cynigiwyd eu trosglwyddo i'r Prif Weinidog yn y Ddeddf Trafnidiaeth a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd, yr oedd y Cynulliad i'w hystyried ar 20 a 27 Mawrth, ac i roi esboniad o unrhyw orchmynion trosglwyddo swyddogaethau yn y dyfodol.  Teimlai y dylai'r Aelodau gael gwybod manylion llawn a holl oblygiadau'r trosglwyddiad.  Cytunodd Marion Stapleton i siarad â swyddfa'r Gweinidog dros yr Amgylchedd i weld a ellid trefnu hyn.  **Gweithredu: Marion Stapleton**

## 8. Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfodydd Llawn

8.1  Dim

## 9.  Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog

9.1  Dim

## 10. Penderfyniadau'r Llywydd

10.1  Dim

## 11. Unrhyw fusnes arall

11.1  Dosbarthodd Marion Stapleton bapur oddi wrth Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol a oedd yn cynnig cynnig brys i ddirprwyo swyddogaethau dros dro i'r Prif Weinidog o dan adran 2(2) Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972.  Byddai hyn yn caniatáu gwneud gorchymynion brys yn ystod argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau heb orfod aros am gymeradwyaeth y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn.  Cytunodd y Rheolwyr Busnes fod y sefyllfa yn un digon difrifol iddynt gefnogi'r mesurau arfaethedig.  Teimlai'r Dirprwy Lywydd a William Graham y dylai geiriad y cynnig drafft ddatgan y byddai'r swyddogaethau dirprwyedig yn dod i ben ar ddyddiad penodol.  Cytunodd Marion Stapleton i ddosbarthu'r cynnig diwygiedig i'r Rheolwyr Busnes, ac unwaith y cytunwyd arno, ei gyflwyno fel Cynnig heb Ddyddiad Trafod ac

anfon copi at bob Aelod.  Byddai hyn yn caniatáu i'r cynnig gael ei symud yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn hwnnw.  **Gweithredu: Marion Stapleton**

11.2  Yn ogystal â hyn, manylodd Marion Stapleton ar gynigion i ddiwygio adran 3 Rheol Sefydlog 23 er mwyn darparu ar gyfer defnyddio'r weithdrefn Weithredol ar gyfer gorchymynion sy'n cael eu gwneud ar y cyd â Gweinidog neu Adran yn Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban neu Weithrediaeth Gogledd Iwerddon.  Byddai'r diwygiad hwn hefyd yn ei gwneud yn haws gwneud is-ddeddfwriaeth yn ystod argyfwng presennol Clwy'r Traed a'r Genau.

11.3  Cydnabu'r Rheolwyr Busnes y rhesymau am y cynnig hwn, a nodwyd pryderon y Dirprwy Lywydd bod angen cydbwyso hyn â hawliau Aelodau i graffu ar is-ddeddfwriaeth. Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd David Lambert na fyddai'n bosibl gwneud diwygiad dros dro i'r Rheolau Sefydlog fel y'u drafftiwyd ar hyn o bryd.  Fel arall, gallai cynnig i ddod â diwygiad arfaethedig gerbron Cyfarfod Llawn ymrwymo'r Cynulliad i adolygu'r angen am y diwygiad erbyn rhyw ddyddiad penodol.  Cytunwyd y dylid llunio newidiadau priodol er mwyn caniatáu i'r Weinyddiaeth ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol am gyfnod cyfyngedig. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Trefnydd ddosbarthu unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r Rheolwyr Busnes fel y byddent yn gallu eu hystyried gyda'u grwpiau.  Nododd y Pwyllgor y bwriad i gyflwyno'r cynnig fel Cynnig heb Ddiwrnod Trafod ar gyfer ei ddadlau ar ddydd Iau, a nodwyd yr angen i osod adroddiad y Pwyllgor Busnes o flaen llaw.  **Gweithredu: Marion Stapleton i ddosbarthu'r diwygiad arfaethedig i'r Rheolwyr Busnes; ac unwaith y cytunwyd arnynt, Ysgrifenyddiaeth y Siambr i baratoi adroddiad y Pwyllgor Busnes.**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**